Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Tŷ-croes

**Heol Pontarddulais**
**Tŷ-croes**
**Rhydaman**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 3QD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Tŷ-croes

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Tŷ-croes |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 190 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 157 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 13 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 21.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 12.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 16/04/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 10/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/03/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Tŷ-croes yn darparu amgylchedd diogel ac ysgogol ar gyfer disgyblion. Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol sy'n rhoi lles, hapusrwydd a dysgu disgyblion a staff wrth wraidd gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli newid yn dda. Maent yn rhoi sylw gofalus i ddatblygiad staff i sicrhau bod pawb yn arddel gwerthoedd yr ysgol ac yn cyfrannu at yr ethos tîm cryf. O ganlyniad, mae staff a disgyblion yn hapus ac yn teimlo'u eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel.

Mae disgyblion yn teimlo synnwyr cadarn o falchder a pherthyn i'w hysgol a'u bro. Mae eu hymddygiad yn eithriadol o dda. Mae rhieni'n hynod werthfawrogol am ansawdd yr addysg a'r gofal cryf a chefnogol a gaiff eu plant. Mae arweinwyr a staff yn meithrin medrau personol, cymdeithasol a chyfathrebu disgyblion yn dda. Mae rhyngweithio disgyblion ag oedolion yn gwrtais a pharchus.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn ddifyr, yn berthnasol ac wedi'i gynllunio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau'n gynyddol. Mae disgyblion yn canolbwyntio'n dda ar eu dysgu ac yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo dysgu'r disgyblion ac nid ydynt yn darparu digon o her na chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol a gwneud penderfyniadau am eu dysgu. Mae arweinwyr wedi datblygu system effeithiol ar gyfer asesu pob un o'r disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol; maent yn defnyddio hyn i olrhain cynnydd pob disgybl. Fodd bynnag, nid yw defnydd athrawon o asesiadau dyddiol disgyblion yn ddigon effeithiol i gynllunio dysgu dilynol. Nid yw gwerthusiad disgyblion o'u llwyddiannau eu hunain a'u camau nesaf mewn dysgu wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae arweinwyr yn Ysgol Gynradd Tŷ-croes yn fyfyriol ac yn ymdrechu i lwyddo. Mae ganddynt broses hunanwerthuso gynhwysfawr i geisio gwella'r ysgol. Mae arweinwyr a staff ar bob lefel yn gweithio'n galed i wella'r ysgol. Fodd bynnag, er bod arweinwyr wedi sefydlu cylch trylwyr o weithgareddau gwerthuso, nid yw'r drefn ar gyfer adolygu'r effaith a gaiff y gweithredoedd hyn ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn ddigon cadarn. O ganlyniad i arweinyddiaeth a darpariaeth effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai y mae eu hamgylchiadau yn eu gwneud yn agored i dangyflawni, yn gwneud cynnydd da.

## Argymhellion

A1 Cryfhau prosesau adolygu o fewn gweithgarwch hunanwerthuso i gael ffocws clir ar effaith gwelliannau ar addysgu a dysgu

A2 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu i fireinio eu haddysgu i gefnogi a herio disgyblion yn briodol

A3 Ymgorffori cyfleoedd systematig i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth a'u medrau mewn gwerthuso a gwella'u dysgu eu hunain

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol â medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy’n debyg i’r rhai a ddisgwylir am eu hoedran a’u cam datblygu, neu’n uwch. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd effeithiol erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag ADY sy’n gwneud cynnydd llwyddiannus tuag at eu targedau unigol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i gymhwyso’u medrau llythrennedd a rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Maent yn gwneud cynnydd da wrth gymhwyso’u medrau digidol mewn meysydd dysgu eraill.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr hyderus ac mae bron pob un ohonynt yn sylwgar wrth wrando ar eu hathrawon a’u cyd-ddisgyblion. Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn cyfleu eu syniadau’n glir i oedolion ac i’w gilydd gan ddefnyddio ymadroddion a brawddegau wedi’u ffurfio’n dda. Wrth iddynt symud ymlaen trwy’r ysgol, mae medrau iaith bron pob un o’r disgyblion yn datblygu’n effeithiol, ac maent yn dechrau defnyddio geirfa sy’n benodol i bwnc. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio geiriau fel anifail cigysol ac ysglyfaethwr wrth drafod eirth gwynion. Mae disgyblion hŷn yn siarad yn hyderus ac yn huawdl gyda’i gilydd, staff ac ymwelwyr. Erbyn i ddisgyblion fod ym Mlwyddyn 6, maent yn trafod cysyniad cariad amodol gyda dealltwriaeth wrth drafod y ffydd Gristnogol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau darllen. Mae disgyblion iau yn datblygu eu gwybodaeth am lythrennau a seiniau yn dda. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae disgyblion yn defnyddio strategaethau i ddarllen geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu rhuglder ac yn defnyddio atalnodi i ymestyn eu mynegiant a’u goslef. Erbyn iddynt fod ym Mlynyddoedd 5 a 6, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr rhugl. Maent yn darllen ar goedd yn hyderus, yn dod o hyd i wybodaeth a’i dethol o’r testun, ac yn defnyddio hyn i gefnogi trafodaethau dosbarth yn gywir.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n briodol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn gwybod bod ystyr i eiriau, ac yn creu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer ysgrifennu ar ystod o gyfryngau. Wrth iddynt wneud cynnydd, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu sillafu, eu hatalnodi a’u llawysgrifen yn briodol. Yn gyffredinol, maent yn cyflwyno’u gwaith yn briodol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy’n uno’u llythrennau ac yn datblygu arddull ysgrifennu rugl. Erbyn iddynt fod ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn dechrau gwneud defnydd buddiol o dechnegau awdurol, gan gynnwys personoli a chyffelybiaethau, i ychwanegu diddordeb at eu hysgrifennu, er enghraifft pan fydd disgyblion yn ysgrifennu cofnod dyddiadur i ymateb i’r Gymdeithas er Gwarchod

Bwystfilod Hudol. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau hŷn yn ysgrifennu naratifau gyda brawddegau disgrifiadol wedi'u ffurfio'n dda. Fodd bynnag, mae datblygiad medrau disgyblion wrth ysgrifennu'n annibynnol yn gyfyngedig, ar y cyfan, oherwydd gorddibyniaeth ar lenwi taflenni gwaith neu fframiau ysgrifennu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu gwybodaeth fathemategol a medrau rhifedd cadarn wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn addas ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn cyfrif 5 hwyaden yn gywir ac yn adio un yn fwy i wneud 6. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn trefnu anifeiliaid yn ôl eu maint ac yn defnyddio blociau i wirio am gywirdeb. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu i fod yn fathemategwyr hyderus. Erbyn Blynyddoedd 5 a 6, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o rifau cyfan neu rifau rhannol trwy gymharu ffracsiynau a chyfrifo canrannau o symiau i ddau le degol yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn frwdfrydig am y Gymraeg. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio geirfa sylfaenol ac yn ymateb i gwestiynau syml i gyfathrebu'n llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ynganu geiriau ac ymadroddion yn gywir. Erbyn Blwyddyn 3, mae disgyblion yn dechrau defnyddio cysyllteiriau i ymestyn eu hymatebion i gwestiynau cyfarwydd. Mae disgyblion hŷn yn gofyn ac yn ateb cwestiynau yn Gymraeg, ac yn cyfieithu paragraff o'r Gymraeg i'r Saesneg yn llwyddiannus heb unrhyw sbardunau.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod o raglenni digidol yn llwyddiannus i gefnogi eu dysgu. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio apiau digidol i gofnodi eu sgyrsiau Cymraeg am yr hyn y maent yn ei wneud dros y penwythnos. Mae disgyblion hŷn yn creu ac yn defnyddio cronfeydd data yn dda, er enghraifft wrth gymharu daeargrynfeydd, ac yn defnyddio codau i greu gemau Dydd Gŵyl Dewi.

Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau'n dda trwy ystod o weithgareddau chwaraeon a chreadigol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn rheoli offer cloddio ac yn chwarae offerynnau traw tra'n canu Mi Welais Jac y Do. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio symud, gofod a chyfeiriad yn dda i fynegi sut mae morloi a llwynogod yn symud ar rew. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn darllen nodiant cerddorol wrth chwarae recordyddion. Mae disgyblion hŷn yn chwarae drymiau Affricanaidd yn frwdfrydig ac yn defnyddio bwcedi i greu curiad gan ddefnyddio dwylo bob yn ail.

O roi'r cyfle iddynt weithio'n annibynnol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad ac yn datblygu eu medrau datrys problemau a meddwl yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ystyried pa ddeunyddiau sy'n ein cadw'n gynnes yn y gaeaf wrth ddisgrifio nodweddion tai. Mae disgyblion hŷn yn esbonio'u strategaeth ar gyfer plygu papur yn ffracsiynau cywir.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae disgyblion yn groesawgar a chyfeillgar. Maent yn gwrtais, yn garedig ac yn parchu disgyblion eraill, gan chwarae gyda'i gilydd yn gytûn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn sympathetig i anghenion pobl eraill ac yn dangos ystyriaeth am eu

ffrindiau. Maent yn gwybod am hawliau plant ac yn teimlo’n gryf am yr angen am gydraddoldeb. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn deall bod angen rheolau yn yr ysgol ac mewn cymdeithas i gadw pawb yn ddiogel.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn dangos lefelau uchel o les ac yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu parchu yng nghymuned gartrefol yr ysgol. Maent yn credu bod yr ysgol yn eu helpu i drin pawb yn deg. Mae bron pob un o’r disgyblion yn hapus yn yr ysgol, a’r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo’u bod yn rhydd rhag bwlio. Maent yn cyfrannu’n llwyddiannus wrth drafod eu meddyliau a’u syniadau yn ystod gweithgareddau ystafell ddosbarth. Mae disgyblion yn eithriadol o ystyriol o’i gilydd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn gwrando ar ei gilydd yn ofalus, ac yn cytuno neu’n anghytuno’n barchus â’i gilydd wrth drafod yr angen am gwmnïau i ddod o hyd i ardaloedd newydd i gael olew ohonynt. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo’u bod yn cael cymorth da gan staff, yn gwybod ble i droi os oes angen cymorth arnynt, ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando ac yn delio’n briodol ag unrhyw bryderon. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda mewn dosbarthiadau, yn ystod gwasanaethau ac yn ystod amseroedd chwarae.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gref o sut i wneud dewisiadau iach a phwysigrwydd gweithgarwch corfforol. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i fod yn iach a hyderus. Maent yn barod i esbonio effaith gadarnhaol yfed dŵr a bwyta diet amrywiol. Mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol fel gemau pêl, gweithgareddau iard chwarae a dawns. Maent yn ymgysylltu’n gadarnhaol â’r cyfleoedd a gynigir gan yr ysgol, ac yn elwa arnynt, fel gemau pêl-droed a thwrnameintiau tennis bwrdd. Mae llysgenhadon chwaraeon yr ysgol yn chwarae gyda disgyblion iau i addysgu gemau newydd iddynt ac annog agweddau cadarnhaol at fod yn egnïol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ymarferion anadlu ac yn dysgu ymdawelu gan ddefnyddio’r technegau hyn. Mae ychydig o ddisgyblion yn esbonio’r buddion a deimlant o hyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau arwain yn frwdfrydig. Er enghraifft, mae’r Cyngor Ysgol yn mynd ati i gefnogi penderfyniadau ysgol gyfan am y gyllideb trwy gymryd y cam i gael gwared ar beraroglyddion drud o gwmpas yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddwl bod staff yn gofyn iddynt am eu barn, yn teimlo bod arweinwyr yn gwrando ar eu syniadau ac yn gwneud newidiadau, o ganlyniad. Mae’r grŵp eco yn cefnogi gwaith yr ysgol i annog pawb i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu. Maent yn gwybod ei bod yn bwysig i bobl leihau eu defnydd o blastigau, a buont yn weithgar yn ymgyrchu am ddyfrffyrdd glân naturiol, gan lwyddo i ennill gwobr gan y Senedd.

Ym mhob dosbarth, mae disgyblion yn dangos agweddau cryf tuag at eu dysgu. Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrando’n dda ar athrawon a staff cymorth, ac yn ddiwyd wrth ddilyn cyfarwyddiadau. Maent yn ymdawelu’n gyflym i ddysgu ac yn symud rhwng tasgau’n synhwyrol. Maent yn ymgysylltu’n llawn, yn dal ati i ganolbwyntio a chwblhau eu tasgau, gan ofalu eu bod yn cynhyrchu eu gwaith gorau posibl. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr mewn gweithgareddau, sy’n gwella’r profiadau dysgu i bawb. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos chwilfrydedd ac mae bron pob disgybl yn cael blas ar ddysgu am destunau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i rannu eu dysgu ac maent yn falch o'u gwaith. Maent yn gwerthfawrogi'r adborth a gânt gan athrawon ac yn defnyddio'r meini prawf llwyddiant a ddarperir gan athrawon i arwain eu hymatebion i dasgau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ddigon hyderus i fireinio'u gwaith gan nad yw'r cymorth a ddarperir trwy adborth athrawon yn ddigon penodol. Yn ychwanegol, ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion wella'u gwaith, sy'n cyfyngu ar eu cynnydd. O ganlyniad i hyn, nid yw disgyblion yn gwybod sut i wella'u gwaith ac nid ydynt yn cael digon o amser i fynd i'r afael â chamdybiaethau neu wneud diwygiadau.

Pan fydd disgyblion yn cael eu herio ac yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol ac yn greadigol yn eu dysgu, meddwl yn rhydd a gwneud penderfyniadau am eu gwaith, maent yn dangos uchelgais a gwydnwch i gwblhau eu dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, wrth weithio mewn tîm i symud pêl o un ochr o'r neuadd i'r llall gan ddefnyddio darnau bach o gafnau, mae disgyblion iau yn mireinio'u dulliau ac yn dod o hyd i atebion creadigol i ddatrys y problemau y deuir ar eu traws.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ac ar y cyd ar gyfer dysgu sy'n adlewyrchu egwyddorion a diwylliant Cwricwlwm i Gymru. Mae staff wedi datblygu cwricwlwm sy'n darparu ehangder a dyfnder dysgu addas ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn cynllunio llawer o brofiadau dysgu dilys, gan gynnwys rhoi cyfle i ddisgyblion hŷn gyfweld ag un o oroeswyr yr holocost, er enghraifft. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau am beth hoffent ei ddysgu, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol wrth gynllunio. Mae athrawon yn cynllunio i ddisgyblion weithio gyda phobl eraill yn y fro a thu hwnt, a dysgu oddi wrthynt. Er enghraifft, mae athrawon a disgyblion yn cysylltu ag ysgol yng Nghenia ac yn codi arian i helpu ariannu bloc gwyddoniaeth newydd yr ysgol.

Mae athrawon yn creu ystafelloedd dosbarth sy'n amgylcheddau dysgu tawel, trefnus a deniadol. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau gyda chyflwyniadau ysgogol a bywiog. Yn yr achosion gorau, maent yn ennyn diddordeb disgyblion trwy ofyn cwestiynau treiddgar, ac yn annog disgyblion i feddwl a rhannu eu syniadau. Mae athrawon yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu i alluogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm. Maent yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu a chymhwyso medrau digidol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau digidol i atgyfnerthu eu dysgu yn y dyniaethau trwy greu cronfeydd data ar ddaeargrynfeydd.

Mae arweinwyr a staff yn defnyddio'r gymuned a'r ardal leol yn llwyddiannus i gyfoethogi'r cwricwlwm ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau a fydd yn fuddiol i ddisgyblion yn y dyfodol. Maent yn defnyddio ymwelwyr o'u cymuned, gan gynnwys parafeddyg, i ddysgu am y byd gwaith. Mae hyn yn ehangu ymwybyddiaeth disgyblion a'u dyheadau am yrfaoedd yn y dyfodol a'r byd gwaith. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu priodol yn yr awyr agored ac yn mynd â disgyblion ar dripiau addysgol ac ymweliadau preswyl blynyddol i ganolfan gweithgareddau awyr agored. Caiff y profiadau hyn effaith gadarnhaol ar hyder disgyblion a'u gallu i weithio gyda'i gilydd.

Mae athrawon yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn llwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu bro a threftadaeth Cymru.

Mae athrawon yn hyrwyddo trafod, dadlau a myfyrio, fel cymharu protestiadau heddychlon modern â Therfysgoedd Beca. Mae'r rhan fwyaf o staff yn fodelau rôl iaith effeithiol ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfarchion a chyfarwyddiadau yn Gymraeg. Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno gweithgareddau i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau llafaredd yn systematig. Maent yn atgyfnerthu geirfa a phatrymau iaith i'w defnyddio mewn bywyd bob dydd ac yn annog disgyblion i siarad Cymraeg yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau ar gyfer y disgyblion iau sy'n eu galluogi i ddatblygu eu medrau meddwl beirniadol a'u gallu i arloesi. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio ewyn a phaent powdr i ddatblygu ynys ar gyfer eu heirth gwynion, creu nodweddion tir fel bryniau, ac ystyried lliw tirffurfiau ar eu hynys. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer y disgyblion hynaf yn llai cyson. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon bob amser yn herio disgyblion i gynhyrchu gwaith y maent yn abl i'w wneud. Maent yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac yn defnyddio taflenni gwaith yn rhy aml, sy'n cyfyngu ar ymatebion disgyblion. Mae hyn yn rhwystro datblygiad annibyniaeth disgyblion, gan gynnwys peidio â rhoi cyfleoedd digonol i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut a beth fyddant yn ei ddysgu, a sut byddant yn cyflwyno'u gwaith.

Mae staff yn datblygu perthnasoedd gweithio agos â disgyblion ac yn meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion a gwybodaeth bwnc dda. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu sy'n symbylu ac yn annog disgyblion i ddysgu. Mae staff cymorth yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio holi'n effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion.

Mae arweinwyr wedi dechrau defnyddio system asesu deilwredig i olrhain cynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd yn briodol. Mae athrawon yn monitro dysgu disgyblion yn ystod gwersi, a phan fydd hyn yn gweithio'n dda, maent yn cynorthwyo disgyblion trwy roi adborth defnyddiol iddynt ar lafar sy'n eu galluogi i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw defnydd athrawon o asesiadau dyddiol i lywio'r addysgu wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Yn aml, nid yw adborth athrawon i ddisgyblion yn ddigon penodol i helpu disgyblion i wybod sut i wella'u dysgu, ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gwerthuso a gwella'u dysgu eu hunain. Mae staff yn rhannu gwybodaeth berthnasol â rhieni am gynnydd eu plant trwy sgyrsiau a chyfarfodydd anffurfiol, ac adroddiadau blynyddol addysgiadol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Tŷ-croes yn ysgol ofalgar sy'n rhoi ffocws pwrpasol ar ddiwallu anghenion pob disgybl unigol. Mae arweinwyr yn hyrwyddo partneriaethau gwerthfawr rhwng rhieni, staff a llywodraethwyr i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu a dysgu'n effeithiol.

Mae arweinwyr a staff yn meithrin perthnasoedd llwyddiannus gyda'r gymuned rieni. Caiff y perthnasoedd hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith fod arweinwyr a staff yn bobl agos-atynt. Maent yn gwerthfawrogi'r ohebiaeth reolaidd a gânt am agweddau ar yr ysgol, fel digwyddiadau wedi'u cynllunio, ac ynglŷn â chynnydd eu plentyn. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi lle gall rhieni gysylltu ag arweinwyr a staff fel mae'r angen yn codi.

Mae hyn yn hynod fuddiol ar gyfer y rhieni hynny sydd â phlentyn ag ADY, ac yn cynorthwyo'r disgyblion hyn i wneud cynnydd cryf, ar y cyfan.

Mae arweinwyr yn defnyddio systemau a phrosesau effeithiol i nodi'r disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd am gynnydd disgyblion gydag athrawon a staff cymorth, gan roi cyfleoedd pwrpasol i staff fyfyrio ar bob plentyn yn unigol, ac i helpu nodi'r disgyblion hynny y mae angen darpariaeth ychwanegol arnynt. Mae hyn yn cynnwys y disgyblion hynny sydd ag ADY. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gydag ystod eang o asiantaethau i ddarparu gwasanaethau arbenigol gwerthfawr i gefnogi anghenion iechyd emosiynol a dysgu disgyblion.

Mae'r Cydlynydd ADY yn adnabod disgyblion ag anghenion ychwanegol yn dda. Mae'n cynghori aelodau staff eraill ar sut i gynorthwyo disgyblion yn eu dosbarthiadau yn effeithiol. Mae'n cynnwys rhieni'n bwrpasol mewn adolygu dysgu'r disgyblion ac mewn cynllunio'u camau nesaf. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion ychwanegol yn ofalus, o'u mannau cychwyn ac yn gysylltiedig â'u targedau. Mae staff wedi dechrau cynnwys disgyblion ag anghenion ychwanegol mewn sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n bwrpasol â gosod eu dyheadau eu hunain ar gyfer gwella.

Mae arweinwyr a staff yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddod yn aelodau o grwpiau amrywiol arweinyddiaeth disgyblion. Mae staff yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r grwpiau hyn yn cyfarfod yn aml ac yn cynorthwyo disgyblion yn bwrpasol i wneud penderfyniadau am sut i wella'u hysgol. Er enghraifft, mae disgyblion o'r Criw Cymraeg Cŵl yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar feysydd chwarae'r ysgol yn ystod amser egwyl. Mae disgyblion hŷn yn gweithredu fel modelau rôl iaith da i gynorthwyo disgyblion iau. Mae'r Dreigiau Digidol yn creu fideos, sy'n cael eu hanfon gartref yn esbonio i rieni sut i ddefnyddio rhai o'r rhaglenni technoleg gwybodaeth a ddefnyddir yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu digonedd o gyfleoedd i gynorthwyo disgyblion i ddeall eu hunaniaeth, eu treftadaeth a'u diwylliant ar lefel leol ac o ran y byd ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn gwneud galwadau fideo gydag ysgol ym Mombasa, gan addysgu dawnsio traddodiadol a'r Gymraeg i'r plant y maent yn cyfarfod â nhw ar-lein.

Mae arweinwyr a staff yn defnyddio'r gymuned a'r ardal leol yn llwyddiannus i feithrin medrau personol a chymdeithasol disgyblion a fydd o fantais iddynt yn y dyfodol. Maent yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr o'r gymuned, gan gynnwys dietegydd, i ddysgu am ddewisiadau iach ynghylch ffordd o fyw, ac yn darparu ystod o weithgareddau corfforol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys dawnsio creadigol a chwaraeon. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o ddiet ac effaith ymarfer corff ar y corff. Mae'r ysgol yn mynd ati i annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol fel iechyd a lles, yr Urdd, garddio ac ystod o glybiau chwaraeon, gan ymgorffori negeseuon ymhellach ynghylch dewisiadau iach am ffordd o fyw. Caiff y profiadau hyn effaith gadarnhaol ar ffitrwydd a lles disgyblion, gan gymell disgyblion i gadw'n heini a hyrwyddo'u dealltwriaeth o fyw yn iach.

Mae arweinwyr a staff yn annog disgyblion i ddatblygu empathi, parch, gwroldeb a thosturi. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad

moesegol, ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae gwasanaethau ysgol yn gweu ynghyd agweddau ar hawliau plant yn ofalus gyda gwerthoedd craidd yr ysgol. Wedyn, mae staff yr ysgol yn cysylltu'r themâu hyn â digwyddiad byd, er enghraifft sut mae cyfeillgarwch yn cysylltu â'r Diwrnod Rhyngwladol Heddwch.

Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o strategaethau effeithiol i hyrwyddo presenoldeb da ac yn monitro'r effaith yn drylwyr. O ganlyniad, mae presenoldeb ar gyfer pob un o'r disgyblion yn parhau i wella.

Mae'r ysgol wedi datblygu polisi ymddygiad yn seiliedig ar ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o hunanddisgyblaeth a derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain. Mae'r ysgol yn bwriadu creu'r amodau ar gyfer cymuned drefnus lle gall dysgu effeithiol ddigwydd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o ddiogelu ar draws yr ysgol, sy'n cael ei ddeall gan bawb. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o sut gallant ofyn am gymorth a chefnogaeth os oes angen, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, er enghraifft wrth weithio gyda dyfeisiau digidol ar-lein.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth wedi gweithio'n effeithiol gyda staff i greu ethos tîm cryf. Dros gyfnod, mae hi wedi sefydlu egwyddorion a sylfeini cadarn ar gyfer adeiladu a datblygu ysgol effeithiol. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u seilio ar ymddiriedaeth, tryloywder a chymorth i bawb. Mae'n hyrwyddo ac yn dangos gwerthoedd proffesiynol cryf ymhlith ei thîm. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus gan arweinwyr eraill, gan gynnwys y dirprwy bennaeth.

Dros gyfnod, mae'r pennaeth a'r arweinwyr wedi sefydlu systemau a phrosesau clir sydd wedi ysgogi cynnydd pwysig mewn meysydd allweddol, ac wedi sefydlu disgwyliadau clir i bawb, er enghraifft gwella cyfathrebu â rhieni, gwella ymddygiad disgyblion a sefydlu rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer pob un o'r staff. Mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu cynnal dros gyfnod, wedi gosod sylfeini cadarn ar gyfer symud ymlaen ac i adeiladu arnynt, ac yn cael effaith werthfawr ar ddysgu a lles disgyblion, yn gyffredinol. Yn ychwanegol, mae staff yn teimlo'n hyderus yn deall beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac o ganlyniad yn cyfrannu'n gadarnhaol at fywyd yr ysgol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae arweinwyr hefyd wedi sefydlu diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol, sy'n cael ei ddeall yn dda gan bob un o'r staff a'r llywodraethwyr.

Mae arweinwyr yn cynnwys pob un o'r staff mewn cyfrannu at osod blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Caiff pob un o'r staff eu cynnwys yn bwrpasol mewn tîm cwricwlwm. Maent yn cynnal gwerthusiadau o gynnydd yn eu meysydd cwricwlwm ac yn nodi agweddau i'w gwella. Mae arweinwyr hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol ac wedi rhoi ffocws cryf ar hyrwyddo'r Gymraeg a medrau digidol yn benodol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion yn y meysydd hyn.

Mae arweinwyr wedi sefydlu calendr o weithgarwch hunanwerthuso wedi'i gynllunio'n dda, sy'n cynnwys pob un o'r staff ac yn cefnogi nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn briodol. Maent yn ymgynghori'n rheolaidd â phobl eraill, gan gynnwys disgyblion a rhieni i ofyn am eu barn. Mae arweinwyr a staff yn defnyddio ystod eang o weithgareddau fel craffu ar lyfrau, gwrando ar ddysgwyr a chynnal teithiau dysgu i lywio'u gwerthusiadau. Maent yn defnyddio'r prosesau hyn, ynghyd â system deilwredig y maent wedi'i datblygu i fonitro a chynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr ysgol bob amser yn sicrhau bod camau gwella yn cael eu hadolygu'n ddigon trylwyr o ran yr effaith a gânt ar ddysgu ac addysgu. Er enghraifft, wrth adolygu pa mor dda y mae athrawon yn rhoi adborth i ddisgyblion ar eu dysgu a sut mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'u gwersi.

Mae llywodraethwyr yn cymryd rôl weithredol a phwrpasol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn ffrindiau beirniadol effeithiol ac yn cynnig arweiniad a chymorth defnyddiol i'r pennaeth. Mae gan lywodraethwyr set sgiliau eang, ac maent yn defnyddio'r medrau hyn yn bwrpasol i gynorthwyo arweinwyr wrth wneud penderfyniadau. Cânt eu cynnwys yn weithredol mewn gweithgareddau hunanwerthuso, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth sy'n gwella o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar gyfer yr ysgol. Maent yn llunio adroddiad ysgrifenedig defnyddiol, sy'n canolbwyntio'n briodol ar yr hyn y maent wedi'i weld, gan gynnwys gwerthuso agweddau disgyblion at ddysgu. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer bwyta ac yfed yn iach sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth statudol.

Mae arweinwyr yn gweithio i sicrhau bod teuluoedd sydd dan anfantais oherwydd tlodi yn cael cymorth da, er enghraifft trwy roi cymhorthdal ar gyfer cost tripiau ac ymweliadau. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyfnewid gwisgoedd ysgol ac wedi gwneud newidiadau buddiol i'r polisi ar wisg ysgol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol o ddysgu proffesiynol. Mae hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gysylltiadau â blaenoriaethau o fewn cynllun datblygu'r ysgol, prosiectau ymchwil unigol ac â blaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft y ddeddfwriaeth ADY newydd. Defnyddir 'Triawdau Ymddiriedaeth' ymhlith staff er mwyn i staff rannu arfer effeithiol a nodwyd, a chynorthwyo'i gilydd i wella ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i athrawon a staff arsylwi a dysgu o arfer addysgu effeithiol y tu hwnt i'r ysgol yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae ystafelloedd dosbarth yn cynnwys adnoddau da, ac mae arweinwyr yn defnyddio grantiau, fel y grant datblygu disgyblion, i sicrhau bod lefelau staffio da i ddarparu cymorth effeithiol â lles a dysgu ar gyfer disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  16/05/2024